# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Lewis Davies, Jim Evans, Kenneth Hughes, W. T. Hughes, Thomas Jones, R. L. Owen, Eric Roberts, Hefin Thomas, J. P. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ)<br>Uchel Beiriannydd (Rheoli Datblygu) (EJ)<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE)<br>Cynorthwy-ydd Cynllunio<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SWJ) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelod Lleol: Y Cynghorydd Eric Jones ar gyfer Cais 12.5 |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd a chofnodwyd y datganiadau o ddiddordeb dan yr eitemau perthnasol.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2012 yn rhai cywir, yn amodol ar newid y cyfeiriad at “estyniad” yn y rheswm dros ganiatáu cais 12.4 ar dudalen 9 i ddarllen “annedd”.

**4 YMWELIADAU SAFLE**

Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle yn dilyn cyfarfod 7 Mawrth o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**5 Y CYHOEDD YN SIARAD**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod ar ddeall y byddai aelodau o'r cyhoedd yn siarad yn y cyfarfod hwn mewn perthynas â cheisiadau 12.3 a 12.5. Fodd bynnag, ni fyddai yna siaradwyr cyhoeddus ar gais 12.3 oherwydd bod yr Aelod Lleol wedi gofyn am i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle.

## 6 CEISIADAU A OHIRIWYD

### 6.1 19C1064A/EIA/ECON – Cais amlinellol am ddatblygiad defnydd cymysg gyda marina newydd, eiddo preswyl, gwesty, defnyddiau masnachol, hamdden ac adwerthu ac adennill tir cysylltiol ac isadeiledd gwasanaeth yn y Waterfront, Caergybi

Fe adroddwyd ar y cais hwn i'r Pwyllgor blaenorol gydag argymhelliad y dylai'r Aelodau ymweld â'r safle oherwydd ei faint a'i leoliad a hefyd oherwydd lefel y diddordeb yn lleol. Cynhaliwyd yr ymweliad safle ar 15 Ionawr 2012. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth ychwanegol wedi'i chyflwyno gan yr Aelod o fewn y cyfnodau amser angenrheidiol. Felly, rhaid gohirio unrhyw ystyriaeth ar y cais hwn er mwyn gallu ymgynghori ymhellach.

**Penderfynwyd gohirio'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**
*(Roedd y Cynghorydd J. P. Williams yn dymuno iddo gael ei nodi nad oedd wedi cymryd rhan yn y trafodaethau).*

## 7 CEISIADAU'N CODI O'R COFNODION

### 7.1 22C206 – Codi mast anemometr 40.5m o uchder dros dro ar dir i'r De o Rhos Isaf, Llanddona

*Datganodd y Cynghorydd Thomas Jones ddiddordeb yn y cais hwn ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno.*

Yn y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, roedd yr Aelodau wedi penderfynu gwrthod y cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog ar y sail eu bod yn credu bod ei effaith weledol a'i effaith ar y dirwedd yn sylweddol andwyol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod argymhelliad y Swyddogion yn parhau yn un o roi caniatâd, ac roedd y rhesymau am hynny yn yr adroddiad. Dywedodd wrth yr Aelodau bod mwy o lythyrau wedi cael eu derbyn ers i'r cais gael ei drafod y mis diwethaf ac roedd yr holl ohebiaeth wedi'u cynnwys yn y pecyn a gylchwyd cyn dechrau'r cyfarfod. Roedd yna 19 o sylwadau trwy lythyr ac/neu e-bost yn gwrthwynebu'r cais er bod yn rhaid dweud bod rhai ohonynt yn gopïau ac roedd rhai eraill gan yr un person. Roedd llythyrau wedi'u derbyn hefyd gan Savills, oedd yn gweithredu fel asiant i'r ymgeisydd yn rhoi rhybudd bod eu cleient wedi rhoi cyfarwyddiadau i Savills apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i wrthod. Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio ei fod angen pwysleisio'r neges hwn yn arbennig yng ngoleuni'r drafodaeth eang a gafwyd yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Pwyllgor ynglŷn â'r testun o fferm wynt; dywedodd bod y swyddogion wedi pwysleisio nad oedd y cais hwn yn un am dyrbin gwynt ond yn hytrach yn un am fast anemomedr 40.5m i fesur y gwynt tros gyfnod dros dro. Pwysleisiodd unwaith yn rhagor mai dyna oedd testun y cais fel bod yr aelodau yn hollol glir ynglŷn â natur y cais oedd o dan ystyriaeth. O safbwynt y rhesymau a roddwyd gan y Pwyllgor dros wrthod y cais yn ei gyfarfod mis cynt, dywedodd y Swyddog bod maint yr effaith weledol a gâi'r cynnig ar y dirwedd yn fater o farn ond er hynny roedd yn parchu safbwyntiau'r Pwyllgor. Fodd bynnag, nid oedd ond yn deg bod y ddau aelod oedd wedi cynnig ac eilio'r bwriad i wrthod y cais yn y cyfarfod blaenorol ac y byddai angen iddynt amddiffyn y penderfyniad ar apêl pe bai hynny'n digwydd, yn glir ynglŷn â'r pwynt hwn.

Roedd y Cynghorydd Hefin Thomas, yn siarad yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Lleol, am atgoffa'r Pwyllgor bod trigolion cymuned Llanddona wedi gwneud eu hymateb yn glir i'r cais ac roedd tros 150 wedi mynychu cyfarfod yn y neuadd bentref gyda'r cyfan ohonynt yn wrthwynebus i'r cais. Roedd yn credu y byddai codi anemomedr ar y safle arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y dirwedd - byddai i'w weld yn glir o Llanddona ac o lefydd eraill yn ogystal. Er mai cais ydoedd hwn i godi mast anemometr am gyfnod dros dro roedd yn bryderus bod hwn yn rhagflaenydd i gais am dyrbin gwynt. Pe bai'r cais yn mynd i apêl yna fe fyddai ef fel Aelod Lleol yn dymuno cymryd lle naill ai'r Cynghorydd R. L. Owen fel yr Aelod oedd wedi cynnig bod y cais yn cael ei wrthod yn y cyfarfod blaenorol neu'r Cynghorydd W. J. Chorlton oedd wedi eilio'r cynnig, fel y gallai amddiffyn y penderfyniad. Gofynnodd i'r Pwyllgor lynu at y penderfyniad blaenorol a gwrthod y cais.

Dywedodd y Cynghorydd R. L. Owen bod ei deimladau ynglŷn â'r cais yn parhau yr un fath sef ei fod yn credu bod hyn oll yn cynrychioli dechrau siwrnai tuag at gais i godi tyrbin gwynt.

Ategodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio ei gyngor mai cais oedd hwn o dan ystyriaeth heddiw i godi mast anemometr i fesur y gwynt am gyfnod dros dro a phe bai'r cais yn mynd i apêl, dim ond hynny yn unig fyddai testun y drafodaeth a'r apêl.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies ei fod yntau hefyd yn parhau o'r run farn ag yn y cyfarfod blaenorol ac er ei fod yn gefnogol mewn egwyddor i ffurfiau eraill a chynaliadwy o ynni, roedd yn credu bod y bwriad i leoli mast anemometr mewn ardal mor sensitif â hon yn rhywbeth hollol anghywir yn arbennig gan fod yna ddau fast pur fawr yn yr ardal yn barod ac roedd yn teimlo bod hynny eisoes wedi anharddu'r dirwedd yn weledol. Wrth y byddai'r mast ar bwynt uchel, byddai'r effaith weledol yn yr ardal yn fawr iawn a byddai'r mast anemometr i'w weld o Gaergybi ac ymhellach na hynny ar y tir mawr i gyfeiriad Caernarfon. At hynny, roedd yn credu nad oedd yr asesiad effaith amgylcheddol a wnaed yn ddigonol o safbwynt gwerthuso maint yr effaith a gâi'r cynnig hwn ar y dirwedd a'r pellteroedd y byddai'r mast i'w weld.

Dywedodd y Cynghorydd Kenneth Hughes ei fod yn parhau heb ei ddarbwyllo a'i fod yn credu y dylid caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chynigiodd bod y cais yn cael ei dderbyn. Ni chafodd ei gynnig ei eilio.

Ceisiodd y Cynghorydd E. G. Davies gael eglurhad ynglyn â'i hawl i bleidleisio ar y cais oherwydd yr oedd wedi bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad safle ond yn absennol o'r cyfarfod blaenorol lle cafodd y cais ei drafod. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai'n rhaid i aelod fod wedi bod yn bresennol trwy'r holl drafodaethau ynglyn â'r cais er mwyn gallu bod mewn sefyllfa i bleidleisio ar unrhyw gais. Tynnodd sylw'r Aelodau at gyfarwyddyd a roddwyd gan y Rheolwr Datblygu Cynllunio a phwysleisiodd mai cais oedd hwn oedd dan ystyriaeth heddiw, ac y byddid yn pleidleisio arno, am fast anemometr yn unig ac nid am unrhyw gais allai o bosibl ddilyn yn y dyfodol.

Cynigiodd y Cynghorydd R. L. Owen fod y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol i wrthod y cais yn cael ei ategu ac fe gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Eric Roberts.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, R. L. Owen, Eric Roberts a J. Arwel Roberts i wrthod y cais. Pleidleisiodd y Cynghorydd Kenneth Hughes o blaid derbyn y cais.

**Penderfynwyd cadarnhau'r penderfyniad i wrthod y cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog ac am y rhesymau a roddwyd yn flaenorol.**

*(Ni chymerodd y Cynghorydd Hefin Thomas fel yr Aelod Lleol, unrhyw ran yn y pleidleisio; ni wnaeth y Cynghorydd W. T. Hughes bleidleisio gan nad oedd wedi bod yn bresennol ar yr ymweliad safle nac yn y cyfarfod blaenorol; ni wnaeth y Cynghorydd J. P. Williams bleidleisio gan nad oedd wedi bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad safle ac ni wnaeth y Cynghorydd E. G. Davies bleidleisio gan nad oedd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor).*

**7.2 35C105E – Gwaith addasu ac ymestyn yn Cae Chippy, Llangoed**

*Datganodd y Cynghorydd Lewis Davies ddiddordeb fyddai'n ei ragfarnu gyda'r cais, ond yn dilyn cael cyngor gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol roedd am gymryd mantais o'r eithriad yn y Côd oedd yn caniatáu i Aelod gyda diddordeb o'r fath wneud sylwadau mewn achosion lle bo gan y cyhoedd hawl hefyd. Yn dilyn gwneud ei sylwadau, aeth allan o'r cyfarfod a pharhaodd y tu allan i'r Siambr am weddill yr eitem.*

Yn y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, fe benderfynodd yr Aelodau ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog. Roeddent o'r farn y byddai'r estyniad arfaethedig yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi 55 y Cynllun Lleol a Pholisi HP8 y Cynllun Datblygu Lleol a Stopiwyd.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies fel yr Aelod Lleol ei fod yn dymuno cyflwyno'r ffeithiau cyn neilltuo o'r cyfarfod yn yr un modd ag yr oedd wedi gwneud yn y cyfarfod blaenorol. Pwysleisiodd nad oedd yna unrhyw wrthwynebiad yn lleol o fath yn y byd i'r cais; nid oedd y Cyngor Cymuned chwaith yn gwrthwynebu'r cais. Ni fydd y cynnig i'w weld o'r briffordd ac ni fydd yn cael effaith ar unrhyw un. Bydd yn toddi i mewn gyda'r tir o'i gwmpas ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar y dirwedd. Cais ydyw am un ystafell fechan ychwanegol ar ffurf estyniad. Fodd bynnag, y prif resymau am y cais yw'r rhesymau meddygol oherwydd gwaethygiad yng nghyflwr yr ymgeisydd. Tynnodd yr Aelod sylw at y ffaith bod llythyr wedi'i dderbyn gan Feddyg Teulu ym Miwmares (roedd wedi cyfeirio at ei gynnwys yn y cyfarfod blaenorol) ac roedd y llythyr hwn wedi nodi rhesymau meddygol cadarn tros gael yr un ystafell fechan ychwanegol fel estyniad i'r annedd. Aeth y Cynghorydd Davies allan o'r Siambr am weddill yr eitem.

Cynigiodd y Cynghorydd Kenneth Hughes bod penderfyniad y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol i ganiatáu'r cais a hynny'n groes i argymhelliad y swyddog yn cael ei ategu ar y sail bod yr annedd yno yn barod a bod y cynnig yn ei farn ef yn cydymffurfio gyda pholisi. Eiliwyd cynnig y Cynghorydd Hughes gan y Cynghorydd R. L. Owen.

Roedd y Rheolwr Datblygu Cynllunio am argymell amodau pe bai'r Pwyllgor yn ategu'n ffurfiol ei fod yn caniatáu'r cais, sef y dylid dechrau'r datblygiad heb fod yn hwyrach na diwedd 5 mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn a'i fod yn cael ei weithredu'n hollol unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd.

**Penderfynwyd cadarnhau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau a roddwyd gerbron gan y Swyddog.**

**8 CEISIADAU ECONOMAIDD**

Nid oedd unrhyw geisiadau economaidd i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**9 CEISIADAU TAI FFORDDIADWY**

Nid oedd unrhyw geisiadau tai fforddiadwy i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**10 CEISIADAU'N GROES I BOLISI**

Nid oedd unrhyw geisiadau croes i bolisi i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**11 CYNIGION DATBLYGU GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION**

**11.1 25C220 – Codi ystafell haul yn Ceunant, Bachau, Llannerch-y-medd**

Yr Aelod Lleol oedd wedi cyflwyno'r cais. O dan delerau'r Cyfansoddiad roedd y cais wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w ystyried a'i benderfynu. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10. 4 y Cyfansoddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd R. L. Owen.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.**

**12 GWEDDILL Y CEISIADAU**

**12.1 19C924C – Cais llawn i newid defnydd yr adeilad o ddefnydd Dosbarth A1 i ddefnyddiau cymysg A1, A2 ac A3 yn 7-9 ac 11-13, Stryd y Farchnad Caergybi**

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion oherwydd bod yr Awdurdod Lleol yn gweithredu fel asiant i'r ymgeisydd.

Eglurodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio mai cais oedd hwn i gael newid defnydd 2 uned adwerthu gwag (defnydd Dosbarth A1) i ddefnydd cymysg (A1, A2 ac A3 - adwerthu/gwasanaethau proffsiynol/bwyd a diod) yn 7-9 a 11-13 Stryd y Farchnad, Caergybi gyda golwg ar roi elfen o hyblygrwydd i'r eiddo. Tynnodd sylw'r Aelodau at Amod 3 oedd yn yr adroddiad oedd yn cyfeirio at unrhyw waith altro strwythurol allai fod angen ei wneud a dywedodd wrthynt mai bwriad y Swyddogion, yn dilyn ystyried y mater, yw bod cynnwys Amod 3 yn cael ei osod fel nodyn cyfarwyddo ar unrhyw ganiatâd yn hytrach nag fel amod.

Holodd y Cynghorydd Thomas Jones a fyddai'r pwysau fyddai y tu ôl i amod yn fwy priodol o ystyried bod y newid arfaethedig yn ymwneud ag eiddo oedd o fewn Ardal Gadwraeth.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod y cais fel yr oedd wedi'i gyflwyno yn un i newid defnydd yn unig ac nid yw'n golygu unrhyw waith altro i strwythur na ffabrig yr eiddo. Byddai'n rhaid i unrhyw fwriadau o'r fath gael caniatâd cynllunio ar wahân.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatau ac fe eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Kenneth Hughes.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gydag Amodau (1)(2) a (4) fel oedd yn yr adroddiad. Byddai cynnwys Amod (3) yn cael ei atodi i'r caniatâd fel nodyn cyfarwyddyd.**

**12.2 19C97B/AD – Cais i godi un arwydd ffasgia wedi'i oleuo ac un arwydd hordin heb ei oleuo yng Nghanolfan Chwaraeon Millbank, Ffordd Garreglwyd, Caergybi.**

Roedd cais wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor gan ei fod ar dir y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatau ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Jim Evans.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.**

**12.3 28C445D - Cais llawn am le byw a llofft ychwanegol yn lle'r siale a'r garafan barhaol gyfredol, gwaith altro ac ymestyn i lawr cyntaf yr annedd bresennol, adeiladu pwll nofio wedi'i amgau a gwaith altro i'r fynedfa i gerbydau gyda chynlluniau diwygiedig i'r garej a gymeradwywyd yn y Bungalow, Ffordd Maelog, Rhosneigr**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor bod yr Aelod Lleol wedi gofyn am ymweliad safle yng nghyswllt y cais hwn. Roedd y Swyddogion Cynllunio'n cytuno gyda'r Aelod Lleol ar yr achlysur hwn.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas y dylid ymweld â'r safle.

**Penderfynwyd cynnal ymweliad safle yn unol â chais yr Aelod Lleol.**

**12.4 40C204G – Codi uned wyliau newydd yn Bryn Awelon, Llanallgo**

*Datganodd y Cynghorydd J. P. Williams ddiddordeb yn y cais hwn ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno.*

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio wrth y Pwyllgor bod yr Adran wedi derbyn e-bost gan asiant yr ymgeisydd heddiw yn gofyn am ohirio unrhyw ystyriaeth ar y cais hwn er mwyn caniatáu i drafodaethau pellach barhau gyda'r ymgeisydd. Nid oedd y Swyddogion Cynllunio yn gwrthwynebu i'r cais gael ei ohirio, ond penderfyniad ydoedd i'r Pwyllgor ei wneud.

**Penderfynwyd gohirio unrhyw ystyriaeth ar y cais hwn am y rhesymau a roddwyd.**

**12.5 41C109D – Cais amlinellol i godi annedd a garej, creu mynedfa i gerbydau a thirlunio ar dir ger Artwood, Star**

*Datganodd y Cynghorydd Jim Evans ddiddordeb yn y cais hwn ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno.*

Roedd y cais wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar ofyn yr Aelod Lleol.

Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Sonia Evans ddod i siarad gerbron y Pwyllgor i gefnogi'r cais.

Diolchodd Ms Evans i'r Cadeirydd am y cyfle i siarad yn y cyfarfod ar ran ei brawd, John Elias. Dywedodd mai cais ydoedd am ganiatâd cynllunio i John a'i ddarpar wraig, Helen. Roedd John wedi'i eni a'i fagu yn ardal Star ac roedd ei deulu wedi ffarmio yn yr ardal am dros ganrif. Ei fwriad yn syml oedd adeiladu cartref ar ffin y pentref yn agos i'r anheddau gerllaw ar safle nad yw'n amhriodol, dim yn rhy amlwg a dim yng nghanol cae. Nododd bod tair annedd newydd wedi cael caniatâd yn ddiweddar ar ffin Star a dywedodd y gallai sicrhau'r Pwyllgor bod safle'r cais hwn yn llai amlwg na'r tri chais hwnnw oedd eisoes wedi'u derbyn. Aeth Ms Evans ymlaen i ddweud mai hwn oedd yr unig gais yr oedd John wedi ei wneud yn Star ac mae'n debyg mai dyma fyddai ei gyfle olaf i wneud cais am ganiatâd cynllunio yn ei gymuned lle'r oedd ei gartref. Yr oedd eisoes wedi rhoi Cytundeb Adran 106 i mewn yn dweud na fyddai'n datblygu gweddill y cae. Terfynodd Ms Evans trwy

ddweud y byddai'n gofyn yn barchus i'r Pwyllgor, pe bai ganddo unrhyw amheuaeth o fath yn y byd ynglyn â'r cais, ymweld â'r safle yn Star cyn dod i benderfyniad.  Diolchodd i'r Aelodau am wrando arni.

Dywedodd y Cynghorydd Eric Jones fel yr Aelod Lleol ei fod yn hollol gefnogol i'r cais ac roedd yn credu ei bod hi'n bwysig i'r Awdurdod wneud popeth o fewn ei allu i gefnogi pobl ifanc oedd yn dymuno parhau i fyw o fewn y cymunedau lle cawsant eu geni a'u magu.  Dywedodd wrth y Pwyllgor ei fod wedi derbyn llythyrau gan ddau deulu yn y gymuned mewn perthynas â'r cais - un o blaid ac un yn erbyn y cais.

Holodd y Cynghorydd J. P. Williams, a chafodd wybodaeth gan yr Aelod Lleol ei fod yn gefnogol i gynnal ymweliad safle, ac felly fe gynigiodd y dylid cael ymweliad safle.  Roedd y Cynghorydd Hefin Thomas yn cytuno â hyn gan y byddai ymweld â'r safle yn caniatáu i'r Aelodau wneud asesiad mwy cywir o'r sefyllfa ac yn galluogi iddynt ddod i benderfyniad.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor iddo ystyried cais blaenorol ar y safle hwn yn ei gyfarfod fis Rhagfyr 2011 ac nad oedd unrhyw ymweliad safle wedi cael ei gynnig bryd hynny.

Dywedodd y Cynghorydd J. P. Williams iddo fod wedi cynnig bryd hynny y dylai'r Pwyllgor dderbyn argymhelliad y Swyddog o wrthod a hynny oherwydd barn y Swyddogion bod y cais y tu allan i ffiniau'r anheddiad presennol yn Star.  Fodd bynnag, tynnodd sylw at y ffaith bod y Pwyllgor yng nghyfarfod heddiw wedi cael gwybod am dair annedd arall yn yr ardal oedd yn fwy amlwg ac felly fe fyddai'n hoffi gweld sut roedd yr anheddau hyn wedi'u gosod mewn perthynas â safle'r annedd yn y cais hwn.

**Penderfynwyd cynnal ymweliad safle er mwyn gallu asesu'r sefyllfa yn fwy cywir ac i weld lleoliad y tair annedd arall yn yr ardal yn dilyn dwyn hynny i sylw'r Pwyllgor.**

**12.6   47LPA955/CC – Gwaith altro ac addasu yn Plas Newydd, Llanbabo**

Roedd y cais wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion oherwydd iddo gael ei gyflwyno gan y Cyngor a'i fod ar dir y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatau a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Thomas Jones.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.**

**13.   MATERION ERAILL**

Nid oedd unrhyw faterion arall yn codi yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**Y Cynghorydd J. Arwel Roberts**
**Cadeirydd**